**ADRODDIAD I'R CABINET**
17 Chwefror 2015

**Aelod Cabinet: Ioan Thomas**

**Pwnc: Cefnogi cais i ddatblygu  Canolfan Iaith yn adeilad Yr Hen Glinig, Ffordd Sackville, Bangor**

**Swyddog cyswllt: Debbie Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (a Iaith)**

---

**Y penderfyniad a geisir**

I ddatgan parodrwydd y Cyngor, yn amodol ar lwyddiant cais grant i ddatblygu'r Hen Glinig, Ffordd Sackville,  i dderbyn cyfrifoldeb am gynnal yr adeilad os byddai Menter Iaith Bangor yn methu a chwrdd â'u hoblygiadau am unrhyw gyfnod fyddai'n weddill o brydles pum mlynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol.

---

**Cyflwyniad**

I gyd-fynd ag amodau grant cyfalaf Bwrw 'Mlaen Llywodraeth Cymru sydd a dyddiad cau'n syrthio  ar 6 Chwefror 2015, bydd angen i'r Cyngor gytuno i brydlesu adeilad clinig Ffordd Sackville oddi wrth y  perchennog yn ddi-rent.  Dros gyfnod yr un brydles bydd Cyngor Gwynedd yn prydlesu'r adeilad, yn ddi-rent i Fenter Iaith Bangor.   Bwriad Menter Iaith Bangor yw rhedeg Canolfan Iaith yn yr adeilad.

Er nad yw'r achos busnes yn cynnwys unrhyw gefnogaeth gan Gyngor Gwynedd (refeniw na chyfalaf), ystyrir bod risgiau yn bodoli mewn sefyllfa pe byddai'r Fenter yn methu a chwrdd â'u hoblygiadau o dan y brydles ac y byddai'n rhaid i Gyngor Gwynedd ysgwyddo'r baich am ba bynnag gyfnod fyddai'n weddill ar y brydles.

Rhain yw'r risgiau a adnabuwyd:

- Dadgomisiynu gwasanaethau a chytundebau
- Sicrhau'r adeilad rhag fandaliaeth a difrod troseddol.
- Cynnal ymweliadau rheolaidd i warchod rhag ymddygiad troseddol a mynediad heb ganiatâd.
- Bydd y Fenter yn gymwys i gofrestru fel elusen. Yn sgil hyn ni fydd unrhyw oblygiadau i dalu trethi annomestig
- O ganlyniad i wariant ar yr adeilad fydd yn deillio o gais grant llwyddiannus, rhagwelir na fydd costau cynnal a chadw yn arwyddocaol yn ystod cyfnod y brydles.

Mae'r Gwasanaeth Eiddo yn amcangyfrif na fydd y costau tymor llawn ar gyfer y materion uchod yn fwy na £2,000.

Fodd bynnag, nid yw'n bosib pennu uchafswm i gwrdd â chostau fandaliaeth neu ddifrod troseddol. Nodir yma mai hyn yw'r prif risg i'r Cyngor os gweithredir y penderfyniad.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

- Mae datganiad polisi Llywodraeth Cymru Iaith fyw: iaith byw yn adnabod Bangor fel un o'r canolfannau dinesig rhanbarthol ar gyfer sefydlu canolfannau ynddynt i roi hwb i'r Gymraeg fel iaith fusnes ac iaith gymunedol.
- Mae Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 yn datgan bod angen sylw sylweddol i ardaloedd fel Bangor, ble mae statws y Gymraeg a defnydd cymdeithasol ohoni yn isel.
- Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod canran trigolion Bangor sy'n medru'r Gymraeg wedi syrthio o 46.7% i 36.4%.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian refeniw penodol fel rhan o grant craidd hunaniaith ar gyfer 2015/16 i gefnogi'r Gymraeg, Menter Iaith Bangor, a datblygiad y Ganolfan Iaith ym Mangor.

**Ystyriaethau perthnasol**

Dylid ystyried fod awydd Hunaniaith i gefnogi'r cynlluniau a chyflwyno'r cais yma i'r Cabinet yn dod ar drothwy cyfnod o dorri ar wasanaethau i gwrdd â thargedau arbedion.

**Camau nesaf ac amserlen**

O ganlyniad i'r angen i gwrdd ag amserlen Llywodraeth Cymru, mae'r cais grant eisoes wedi ei gyflwyno (6 Chwefror 2015) ond nid yw hyn yn ymrwymo'r Cyngor i dderbyn unrhyw gynnig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ceisiadau llwyddianus cyn diwedd mis Mawrth 2015. Ystyrir unrhyw gynnig yng ngoleuni penderfyniad y Cabinet.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Fel y mae'r adroddiad yn nodi, mae rhesymau strategol cadarn iawn dros gefnogi'r argymhelliad. Fodd bynnag, mae elfen o risg, er mai bychan yw hwnnw, ynghlwm a chynyddu sylfaen asedau'r Cyngor. Fodd bynnag, cymerwyd pob cam posib i reoli'r risg hwnnw a rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn cloriannu'r risgiau sydd yn ynghlwm a'r les arfaethedig. Disgwylir y bydd ffurfioli'r les yn caniatau i'r amodau a gytunir weithredu, cyn belled a bo modd i sicyrhau rheolaeth y risigau a adnabyddir.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae adnoddau'r Cyngor ei hun bellach yn brin iawn i gefnogi mentrau fel hyn, ond mae amcanion y cynllun yn un o brif faterion y Cyngor. Bydd rhaid i'r Cyngor dderbyn elfen o risg fel hyn wrth symud ymlaen a gweithio gyda'r trydydd sector wrth edrych am ffyrdd gwahanol i wireddu ein hamcanion. Mae angen pwyso a mesur y budd a ddaw o'r cynllun petai'n llwyddiant yn erbyn costau bod yn gyfrifol am adeilad gwag yng nghanol Bangor am hyd at 5 mlynedd. O wneud hyn, credaf fod hwn yn fenter y dylid ei gefnogi, gan fod tystiolaeth fod gwaith wedi ei wneud i fesur y risgiau, ac ystyried mesurau i'w lliniaru.

---

**Atodiadau**